

2014 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Dirymu Gorchymyn
Cefnffordd yr A483 (Derwydd,
Llandybïe, Dyfed) (Codi
Cyfyngiad) 1995 2014**

Gwnaed 4 Ebrill 2014

Yn dod i rym 11 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 124 a pharagraff 27 o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Ebrill a'i enw yw Gorchymyn Dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Derwydd, Llandybïe, Dyfed) (Codi Cyfyngiad) 1995 2014.

Dirymu

2. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Derwydd, Llandybïe, Dyfed) (Codi Cyfyngiad) 1995(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 4 Ebrill 2014

S Hague

SHEENA HAGUE

Dirprwy Gyfarwyddwr

Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adrannau 1(1) a 124 a pharagraff 27 o Atodlen 9 gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Ffyrdd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pweau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1995/2297

**GORCHYMYN DIRYMU GORCHYMYN
CEFNNFFORDD YR A483 (DERWYDD,
LLANDYBÏE, DYFED) (CODI CYFYNGIAD)
1995 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi a'i effaith fydd dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Derwydd, Llandybïe, Dyfed) (Codi Cyfyngiad) 1995, sydd wedi ei ddisodli gan Orchymyn Cefnffordd yr A483 (Derwydd, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2002. Daw'r Gorchymyn i rym ar 11 Ebrill 2014.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 9 Ebrill 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn ystod oriau swyddfa arferol, yn Rhydaman (Llyfrgell Ranbarthol), 3 Stryd y Gwynt, Rhydaman SA18 3DN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1128267.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2014').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D Burnell

M D BURNELL

Trafnidiaeth

Llywodraeth Cymru

